# Effeithiau tanau gwyllt

| | |
|---|---|
| **Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **20 munud +** |
| **Lleoliad** | **Dan do neu yn yr awyr agored** |

## Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar nodi'r effeithiau uniongyrchol a hirdymor sy'n cael eu teimlo yn dilyn achosion o danau gwyllt.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, a hynny yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion, a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Iechyd a lles | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| | | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Rhestru rhai o effeithiau uniongyrchol a pharhaus tanau gwyllt.
- Nodi rhai o'r problemau y gall y rhain eu hachosi i gymuned.
- Trafod sut y gallai'r rhain effeithio ar wahanol bobl yn y gymuned.

## Adnoddau ac offer

- Cardiau adnoddau – Effeithiau tanau gwyllt

## Cefndir

Mae tanau gwyllt yn broblem barhaus, eang, costus ac yn un allai fod yn beryglus, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol cymharol yng Nghymru, sy'n fwy tebygol o ddioddef achosion o danau gwyllt.

Rhwng mis Mawrth a mis Mai fel arfer mae'r tymor tanau brig bob blwyddyn ac mae dros 60% o danau gwyllt yn digwydd rhwng 4yp a chanol nos.

Mae lefel isel o ymwybyddiaeth o danau gwyllt ymhlith y cyhoedd, gyda llawer o bobl heb fod yn meddwl am hon fel problem arbennig o bwysig.

Wrth i effeithiau newid hinsawdd ddod yn fwy amlwg, mae'n debygol y daw tanau gwyllt yn fwy cyffredin ac eang.

## Beth i wneud

1. Cyflwynwch y senario i'ch grŵp fod tân gwyllt cynddeiriog wedi cychwyn o amgylch y gymuned leol, ac fe barodd am sawl diwrnod.
   - Dywedwyd wrth y bobl oedd yn byw yno i adael a mynd i'r ganolfan hamdden mewn tref gyfagos, lle buon nhw'n aros am 2 ddiwrnod a 2 noson.
   - Mae'r gwasanaethau brys wedi llwyddo i ddiffodd y tân, gan foddi rhywfaint o'r ardal yn eu hymdrechion i ffrwyno'r fflamau.
   - Mae nifer o adeiladau, y tir amaeth o gwmpas a'r amgylchedd naturiol sy'n amgylchynu'r ardal wedi eu llosgi'n llwyr.
2. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu eu bod yn byw yn y gymuned gafodd ei heffeithio a'u bod newydd ddychwelyd adref o wibdaith. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried beth y bydden nhw o bosib yn ei weld ar eu taith yn ôl i'w cartrefi, pethau allai eu gwneud yn anesmwyth a dechrau sylwi bod rhywbeth wedi digwydd yn yr ardal. Sut fydden nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n clywed am y tân gwyllt gan ffrindiau a chymdogion? Trafodwch eu meddyliau.
3. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried am ba hyd y bydd effeithiau tân gwyllt, fel yr un a ddisgrifir, yn cael eu teimlo? Eglurwch wrth eich dysgwyr fod effeithiau tanau gwyllt yn digwydd yn syth ond maen nhw'n gallu gadael effeithiau parhaus, hirdymor ac anfesuradwy.
4. Rhannwch eich dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach a gofynnwch iddyn nhw drafod a nodi pa effeithiau y gallai tân gwyllt, fel yr un a ddisgrifir yn y senario, eu cael ar bobl a'r ardal leol.
5. Gallwch ddefnyddio'r **Cardiau adnoddau – Effeithiau tanau gwyllt** mewn amrywiaeth o ffyrdd, fel pecyn, fel cardiau sengl, neu gan ddefnyddio un neu ddau yn unig.
   - Gofynnwch i'ch dysgwyr gymharu'r meddyliau o'u trafodaeth flaenorol â'r effeithiau a ddisgrifir ar y cardiau adnoddau.
   - Gofynnwch iddyn nhw ystyried a thrafod yr effeithiau uniongyrchol a pharhaus (naill ai hirdymor neu anfesuradwy).
   - Gofynnwch iddyn nhw restru'r effeithiau mewn trefn ddiemwnt, o'r rhai mwyaf ofnadwy ar y brig, i'r rhai fyddai'r hawsaf gwella ohonyn nhw. Ystyriwch a allai hyn newid yn achos gwahanol unigolion yn y gymuned e.e. person agored i niwed, perchennog busnes, athro lleol, teulu, ac ati.
   - Ydyn nhw'n gallu didoli'r cardiau o dan y 3 phennawd, sef effaith uniongyrchol, hirdymor neu anfesuradwy? Pwy allai gael eu heffeithio fel hyn? Er enghraifft, busnes lleol, oedolyn, plentyn, teulu, y gymuned gyfan, y genedl, neu hyd yn oed y byd?
   - Rhowch un cerdyn i bob dysgwr neu i bob pâr. Gallan nhw chwarae rôl person o'r gymuned gafodd ei heffeithio, yn siarad am effaith eu cerdyn.
   - Ymdriniwch yn ddyfnach â'r effeithiau a'r sgil-effeithiau cysylltiedig. Er enghraifft, gallai iselder, yn sgil delio ag effeithiau llethol tân gwyllt, arwain at anallu i ddal swydd, gan arwain maes o law o bosibl at ddigartrefedd. Mae'n bosibl y bydd angen meddyginiaeth a chymorth arall ar rywun sy'n cael ei effeithio gan iselder er mwyn rheoli ei gyflwr, a bydd hyn yn cael effaith ariannol ar ein gwasanaethau iechyd.
   - Mewn tri grŵp, rhowch un o'r teitlau pennawd i bob grŵp – uniongyrchol, hirdymor ac anfesuradwy. Gofynnwch i bob grŵp gydweithio i ysgrifennu a chyflwyno stori eu heffeithiau penodedig. Beth yw'r dylanwadau, yr effeithiau, ac ar bwy maen nhw'n effeithio? Oes modd gwneud unrhyw beth i leihau'r effeithiau?

6. Mae'n bosibl y bydd eich dysgwyr am ystyried rhai o'r cwestiynau isod a chael at ymchwil pellach wrth iddyn nhw fynd ati i gyd-drafod. Sut maen nhw'n meddwl y bydden nhw'n ymdopi â phob un o'r effeithiau?
   - Pwy allai gael eu heffeithio? Aelodau arbennig o'r gymuned neu bawb?
   - Pa gamau y gallai fod angen iddyn nhw eu cymryd ar gyfer pob un o'r effeithiau? Caniatewch amser ar gyfer ymchwil.
   - Am ba mor hir y gallai rhai o'r effeithiau hyn ddylanwadu ar eu bywydau eu hunain neu fywydau pobl eraill?
   - Faint o'r effeithiau hyn y byddai'n rhaid o bosib i aelod o'r gymuned, neu'r gymuned gyfan, orfod delio â nhw?
   - Pa broblemau eraill posibl y gallai'r effeithiau hyn eu hachosi a sut y gallen nhw effeithio ar wahanol bobl yn y gymuned sy'n fwy agored i niwed. Gallwch gysylltu hwn â'n **Cynllun Gweithgaredd – Ffawd yn y fflamau**.
   - Ydyn nhw'n gallu meddwl am unrhyw effeithiau eraill i'w hychwanegu at y cardiau?
7. Gofynnwch i'ch dysgwyr roi adborth a thrafod eu canfyddiadau. Ydyn nhw'n gallu meddwl am dri gair i ddisgrifio effeithiau cyffredinol tanau gwyllt?

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Pa ddifrod sy'n gallu cael ei achosi gan dân gwyllt?
- Sut mae difrod sy'n cael ei achosi gan danau gwyllt o bosibl yn effeithio ar unigolion a chymuned?
- Beth allai unigolion neu gymuned ei wneud i reoli a lleihau'r effeithiau, yn dilyn tân gwyllt?
- A yw'n bosib i unigolion neu gymuned wella'n llwyr o effeithiau tân gwyllt?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Mwy o gymorth

- Trafodwch nifer o'r cardiau adnoddau fel grŵp cyfan, gan gael pawb i fwydo syniadau.
- Lleihewch nifer y cardiau i'w trafod.

### Mwy o sialens

- Gofynnwch i bob pâr neu grŵp gyflwyno eu canfyddiadau i'r grŵp ehangach.
- Trafodwch sut y gallai gwahanol aelodau o'r gymuned ddelio â'r effeithiau hyn a chymharwch y profiadau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cardiau i greu siart llif yn dangos effeithiau tanau gwyllt, o'r uniongyrchol i'r anfesuradwy.
- Cwblhewch ochr yn ochr â'n **Cynllun Gweithgaredd – Ffawd yn y fflamau**.

## Gweithgaredd dilynol/tasg estynedig

Beth am roi cynnig ar ein:

- **Cynllun gweithgaredd – Cynllun cilio rhag tanau gwyllt**
- **Cynllun gweithgaredd – ABC tanau gwyllt**

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government